

Gwybodaeth Undebol

Ysgrifenyddion Sir UCAC: Canllawiau

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Ysgrifenyddion Sir UCAC: Canllawiau

Diolch i chi am gytuno i fod yn Ysgrifennydd Sir UCAC. Mae'n rôl sy'n ddolen gyswilt hollbwysig ar gyfer gwaith yr undeb. Chi fydd wyneb yr undeb mewn cyfarfodydd cyd-undebol sirol.

Fel Ysgrifennydd Sir, bydd angen i chi gadw llygad ar ddatblygiadau sirol a hysbysu Swyddogion UCAC ohonynt. Byddwch hefyd yn mynegi barn yr undeb, ac aelodau o fewn y sir, i'r swyddogion sirol. Bydd yn gyfle hefyd i gwrdd a thrafod gydag aelodau o'r undebau eraill.

Bydd y Brif Swyddfa yn hysbysu'r Awdurdod Lleol mai chi yw'r Ysgrifennydd Sir newydd. Mae 'amser undebol' (*facilities time*) ar gael i chi er mwyn cyflawni dyletswyddau fel Ysgrifennydd Sir, a'r Awdurdod Lleol sy'n talu costau cyflenwi i'ch ysgol er mwyn eich rhyddhau i fynychu cyfarfodydd.

Bydd UCAC yn cynnig cefnogaeth a hyfforddiant i chi er mwyn sicrhau y byddwch yn mwynhau ac yn elwa o'r profiad.

Bydd Swyddogion cyflogedig UCAC ar gael i'ch cefnogi bob amser.

Dyma rai o'r prif ddyletswyddau:

1. Cynrychioli UCAC mewn cyfarfodydd Awdurdod Lleol

Mae'r Ysgrifennydd Sir yn cynrychioli UCAC ar Fforwm Undebau'r Awdurdod Lleol, ac ar y Grŵp Partneriaeth Gymdeithasol Leol (*Local Social Partnership*). Mae gan yr Awdurdodau Lleol enwau gwahanol am y grwpiau hyn.

Mae hon yn rôl hanfodol gan fod yr Awdurdodau Lleol yn dymuno i'r cynrychiolwyr fod yn athrawon cyflogedig o fewn y sir yn hytrach nag yn swyddogion undeb cyflogedig. Gall yr Ysgrifennydd Sir drefnu i rywun arall fynychu'r cyfarfod ar ran yr undeb os bydd angen.

Mae'n bwysig bod yr Ysgrifennydd Sir yn cyfnewid gwybodaeth gyda'r Brif Swyddfa. Mae'n werth rhannu'r agenda gyda'r Swyddog Maes perthnasol, rhag ofn bod ganddynt faterion neu bwyntiau i'w awgrymu i chi – ac mae'n gyfle i chi gyd-drafod cyn y cyfarfod.

Cofiwch fod gwybodaeth ar gael ar wefan UCAC a allai fod yn ddefnyddiol i chi e.e. taflenni gwybodaeth, ymatebion UCAC i ymgynghoriadau diweddar.

Er mwyn derbyn gwybodaeth am farn/pryderon aelodau yn eich ardal, gall fod yn ddefnyddiol cysylltu'n uniongyrchol gyda Chynrychiolwyr UCAC yn y sefydliadau. Gallech anfon e-bost at Gynrychiolwyr ychydig cyn dyddiad y fforwm cyd-undebol. Gweler yr atodiad am enghraifft o neges.

Mae Cyfarfodydd Sir yn ffynhonnell arall o wybodaeth werthfawr am y sefyllfa ar lawr gwlad a barn aelodau.

2. Ymateb i bolisïau sirol/rhanbarthol

O dro i dro, bydd yr Awdurdodau Lleol yn cyflwyno ymgynghoriadau ar bolisïau sy'n effeithio ar y gweithlu addysg. Mae'n bwysig gofyn barn eich Swyddog Maes am bolisïau sydd dan drafodaeth, er mwyn adlewyrchu polisïau UCAC wrth ymateb, a sicrhau cysondeb ledled Cymru.

Anfonwch gopiâu o'r polisïau terfynol i'ch Swyddog Maes fel bod copiâu cyfredol ar gael.

3. Hysbysu'r Swyddog Maes o ddatblygiadau sirol pwysig

Mae hyn yn cynnwys unrhyw beth allai fod o ddiddordeb cenedlaethol, fel bod modd i UCAC weithredu yn y modd mwyaf effeithiol e.e. cysylltu gyda'r Gweinidog Addysg, Estyn, CBAC, yr Awdurdodau Lleol neu'r cyfryngau, cynnwys y mater mewn ymateb i ymgynghoriad.

Gall yr Ysgrifennydd Sir gydlynu gweithgareddau lleol mewn cydweithrediad â'r Swyddog Maes.

4. Achosion o ddiswyddo oherwydd gormodedd (*redundancy*) neu ailstrwythuro

Weithiau bydd y Swyddog Maes yn gofyn i Ysgrifennydd Sir am gefnogaeth mewn achos o ddiswyddo oherwydd gormodedd (*redundancy*) neu o ailstrwythuro.

Ar adeg pan mae bygythiad o ddiswyddo, mae proses i'w dilyn, a gall Ysgrifennydd Sir chwarae rôl bwysig trwy fynychu cyfarfodydd cychwynnol lle rhennir gwybodaeth.

Gall UCAC ddarparu rhestr o gwestiynau i'w holi. Bydd modd cysgodi Swyddog Maes mewn un neu ddau gyfarfod er mwyn ymglyfarwyddo â threfn y broses os dymunir.

5. Achosion eraill

Polisi UCAC yw bod pob achos yn ymwneud â chwynion a disgyblu yn cael ei gyfeirio at y Swyddog Maes. Os oes aelod yn cysylltu gyda chi, dylech chi neu'r aelod gysylltu gyda'r Swyddog Maes yn syth.

Mae angen pwysleisio'r neges nad yw'r aelod i ddweud unrhyw beth neu wneud unrhyw ddatganiad, heb yn gyntaf dderbyn cyngor gan UCAC.

Er na fydd angen i'r Ysgrifennydd Sir ymwneud yn uniongyrchol ag achosion, gall Swyddog Maes ofyn am ganiatâd yr aelod i rannu gwybodaeth am yr achos gyda'r Ysgrifennydd Sir, os tybir bod hyn yn mynd i fod o gymorth i'r achos.

Cedwir cyfrinachedd ar bob achlysur.

6. Cydlynu'r Gymdeithas Sir

Mewn ymgynghoriad gyda chi, mae'r Brif Swyddfa'n gwneud y mwyafrif o'r trefniadau ymarferol o ran trefnu Cyfarfodydd Sir.

Disgwylir i'r Gymdeithas Sir gwrdd unwaith y tymor, er mwyn rhoi cyfle i aelodau drafod materion sirol.

Cynhadledd Sir fydd cyfarfod tymor y gwanwyn a bydd cyfle i aelodau lleol benderfynu ar gynigion i'w cyflwyno i Gynhadledd Flynyddol UCAC gyda'r posibilrwydd o ddylanwadu ar bolisïau a blaenoriaethau cenedlaethol yr undeb. Penderfynir hefyd pwy sydd am fynychu'r Gynhadledd Flynyddol ar ran y Gymdeithas Sir.

Disgwylir y bydd yr Ysgrifennydd Sir yn:

- dewis dyddiad addas ac yn paratoi agenda'r cyfarfodydd mewn cydweithrediad â'r Swyddog Maes
- cadw cofnod o benderfyniadau ar y noson
- paratoi adroddiad byr ar gyfer y Gynhadledd Sir (i'w gynnwys, hefyd, yn llyfryn y Gynhadledd Flynyddol)
- gweithredu, mewn cydweithrediad â'r Swyddog Maes, ar unrhyw geisiadau neu benderfyniadau rhesymol gan y Gymdeithas Sir

Mae'n bwysig bod yr Ysgrifennydd Sir, hefyd, yn recriwtio aelodau newydd ac annog Cynrychiolwyr Ysgol ac aelodau eraill i recriwtio, i fynychu cyfarfodydd, ac i ddod yn weithredol gyda'r undeb.

7. Cyngor Cenedlaethol UCAC

Y Cyngor Cenedlaethol yw corff llywodraethu UCAC. Mae'r Cyngor Cenedlaethol yn cynnwys cynrychiolwyr o bob sir, a ddewisir yn lleol. Fel arfer, yr Ysgrifennydd Sir yw un o'r cynrychiolwyr.

Cynhelir hyd at bedwar cyfarfod o'r Cyngor y flwyddyn.

8. Rhaglen dros y flwyddyn

Nodir isod grynodedb o ddyletswyddau'r Ysgrifennydd Sir fesul mis:

- Bob tymor: trefnu a chynnal cyfarfod o'r Gymdeithas Sir
- Trefnu bod Dirprwy Ysgrifennydd Sir yn cael ei benodi yng nghyfarfod cyntaf y Gymdeithas Sir (yn ddelfrydol o wahanol sector - cynradd/uwchradd/Addysg Bellach/Addysg Uwch)
- Tymor yr hydref: cyfarfod Cyngor Cenedlaethol
- Tachwedd/Rhagfyr: dechrau ar y gwaith o drefnu'r Gynhadledd Sir gyda chymorth y Brif Swyddfa
- Rhagfyr: cyfarfod Cyngor Cenedlaethol (yn ôl yr angen)
- Rhagfyr/Ionawr: paratoi adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i'r Gynhadledd Sir ac yna ei drosglwyddo i'r Brif Swyddfa i'w gynnwys yn Llawlyfr Cynhadledd Flynyddol UCAC
- Ionawr: mynychu'r Gynhadledd Sir; yn ystod y cyfarfod: cyflwyno'r adroddiad blynyddol; casglu enwau ar gyfer cynrychiolwyr y Sir yn y Gynhadledd Flynyddol; cofnodi geiriad cynigion a'u trosglwyddo i'r Swyddog Maes
- Tymor y gwanwyn: cyfarfod Cyngor Cenedlaethol
- Mawrth/Ebrill: Cynhadledd Flynyddol UCAC
- Tymor yr haf: cyfarfod Cyngor Cenedlaethol

Unwaith eto, diolch yn fawr i chi am eich parodrwydd i dderbyn y swydd o Ysgrifennydd Sir UCAC. Hyderwn y byddwch yn cael budd o'r profiad o weithio dros eich undeb.

Bydd pob Ysgrifennydd Sir yn derbyn manylion am gynrychiolwyr ysgolion y sir a chanllawiau ar gyfer ymdrin â rhai ymholiadau cyffredin.

Cysylltwch â'r Swyddog Maes perthnasol am gyngor pellach, neu ffoniwch Brif Swyddfa UCAC ar 01970 639950.

Swyddogion Maes

- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain, mererid@ucac.cymru
- Ioan Rhys Jones, Swyddog Maes y Gogledd, ioan@ucac.cymru
- Jen Jones, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, jen@ucac.cymru
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, gareth@ucac.cymru

Swyddogion eraill UCAC

- Dilwyn Roberts-Young, Ysgrifennydd Cyffredinol, dilwyn@ucac.cymru
- Rebecca Williams, Swyddog Polisi ac Is-ysgrifennydd Cyffredinol, rebecca@ucac.cymru

Diweddarwyd Awst 2021

Atodiad 1

Annwyl Gynrychiolydd UCAC,

Rwy'n cysylltu ar ran UCAC fel eich Ysgrifennydd Sir.

Ar [dyddiad] cynhelir cyfarfod fforwm cyd-undebol Sir [] lle bydd cyfle i ni fel undebau dderbyn y newyddion diweddaraf a mynegi ein barn a'n pryderon fel gweithlu ar ddatblygiadau sirol a chenedlaethol.

Mae'n bwysig iawn i mi fy mod yn adlewyrchu ein barn ni, yr aelodau. Tybed a allech gynnal cyfarfod undeb byr neu gael sgwrs gyda'ch cyd-aelodau yn yr ysgol i weld a oes rhywbeth cyffredinol yn eich poeni a nodi hwnnw yn fyr mewn e-bost.

Diolch yn fawr iawn i chi am eich amser,

Yn gywir

[]

Ysgrifennydd Sir



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

[f facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [t twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)

www.ucac.cymru